# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 125(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd: Tirweddau Dynodedig

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Ymchwiliad y DU i Waed wedi'i Heintio

(45 munud)

## 5 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

(60 munud)

**NDM6686** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.102:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

Gosodwyd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 7 Mawrth 2018.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

(5 munud)

**NDM6687** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 7 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

(60 munud)

**NDM6683** Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

Gosodwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 23 Hydref 2017.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 5 Mawrth 2018.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**NDM6683** [Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na fydd y Bil yn arwain at y canlyniadau iechyd cadarnhaol a ddymunir ar gyfer pobl Cymru ac y gallai gael effaith niweidiol ar rannau o'n cymunedau sy'n agored i niwed.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

(5 munud)

**NDM6684** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 14 Mawrth 2018